**Damian Hinds**

Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Y Weinyddiaeth
Gyfiawnder

Cadeirydd, Bwrdd Monitro Annibynnol
CEF/STI Parc
Heol Hopcyn John
Pen-y-bont ar Ogwr
De Cymru
CF35 6AP

19 Hydref 2023

Annwyl Gadeirydd,

**CEF/STI PARC: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MAWRTH 2021 i 31 MAWRTH 2022**

Diolch i chi am adroddiad eich Bwrdd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac am ddarparu darlun cynhwysfawr o CEF/STI Parc dros y cyfnod adrodd, yn enwedig wrth i chi barhau i weithredu gyda nifer fawr o aelodau am yr ail flwyddyn yn olynol.

Roeddwn yn drist o glywed bod chwe marwolaeth yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Fel y gwyddoch, mae'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf (PPO) yn cynnal ymchwiliadau annibynnol i farwolaethau yn y ddalfa a hoffwn sicrhau'r Bwrdd bod fy swyddogion yn cymryd argymhellion y PPO o ddifrif.

Gallaf gadarnhau bod y contractwr gweithredu, G4S, wedi cynnal adolygiad o'i system tâl a gwobrau ac wedi darparu dau godiad cyflog eleni i staff G4S. Mae hyn wedi gwella atyniad recriwtio i CEF/STI Parc a chadw staff presennol. Mae G4S hefyd wedi cynnig contractau hyblyg yn amrywio o 24 awr i 40 awr yr wythnos i wella recriwtio a chadw staff.

Roedd yn galonogol derbyn eich sylwadau am CEF/STI Parc fel un o'r carchardai cyntaf yn y DU i adael cyfyngiadau pandemig ac ailagor gweithdai. Cefais gysur hefyd o glywed am arolygiad cadarnhaol iawn Estyn (yr arolygiaeth addysg yng Nghymru), ac am y modd y caiff gwasanaethau ailsefydlu eu darparu'n effeithiol er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn ystod cyfnod pontio'r contract.

Sylwaf eich bod wedi codi rhai materion lleol sy'n peri pryder yn eich adroddiad y bydd y Cyfarwyddwr yn parhau i'ch hysbysu amdanynt wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mae sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) mewn ymateb i faterion eraill a godwyd yn eich adroddiad wedi'u nodi yn yr atodiad atodedig.

Mae'r Ysgrifennydd Cyfiawnder a minnau'n gwerthfawrogi'r rhan werthfawr chwaraeir gan aelodau'r Byrddau Monitro Annibynnol ledled yr ystâd ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich gwaith caled parhaus ar ran CEF/STI Parc.

**Damian Hinds**

**Gweinidog Carchardai a Phrawf**

T +4420 3334 3555
F +44870 761 7753

E https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

1Q2 Petty France
London
SW1H 9AJ

**CEF/STI Parc: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL AR GYFER 1 MAWRTH 2021 i 31 MAWRTH 2022**

**Sylwadau HMPPS ar faterion a godwyd yn yr adroddiad**

**Rhaglenni Ymddygiad Troseddwyr**

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd CEF/STI Parc gontract newydd ar gyfer darparu Rhaglenni Ymddygiad Troseddwyr (OBPs). Cyn dyfarnu'r contract, cynhaliwyd dadansoddiad anghenion OBP gan ddefnyddio data segment a chyflwynwyd Cynllun Cyflawni OBP ar gyfer 2023-24. Roedd y cynnig hwn yn ystyried diwygio cynnig OBP presennol y carchar i ddiwallu anghenion a nodwyd. Yn seiliedig ar ddata, cytunwyd y byddai CEF/STI Parc yn cyflwyno'r rhaglen Kaizen Dwysedd Uchel i ddiwallu anghenion troseddau trais cyffredinol. Dyma'r rhaglen dwyster uchel gyntaf i'w chyflwyno yn y carchar ac mae'n adlewyrchu buddsoddiad newydd mewn adnoddau OBP. Er mwyn bodloni anghenion ymatebolrwydd y boblogaeth carchardai a nodwyd ag anawsterau dysgu, cytunwyd ar ail-fuddsoddi pellach i gyflawni'r OBP New Me Strengths wedi'i addasu.

Mae MPPS yn adolygu darpariaeth OBPs yn CEF/STI Parc yn flynyddol ac os yw lefel y galw yn amrywio i ddangos poblogaeth ddigonol ar gyfer llinyn newydd o raglen/rhaglenni yna gellir ystyried hyn. Mae gwaith rhwng HMPPS a CEF/STI Parc yn mynd rhagddo i gefnogi'r carchar i olrhain anghenion eu poblogaeth troseddwyr rhyw yn effeithiol. Y rhestr aros ddiwethaf a gadarnhawyd ar gyfer carcharorion a oedd angen OBP troseddau rhywiol achrededig yn CE F/STI Parc oedd un carcharor. Lle mae'r galw'n isel, dylid dilyn

trefniadau trosglwyddo er mwyn datblygu mynediad unrhyw unigolyn ar OBPs. Mae CEF/STI Parc yn agos i CEF Brynbuga, ei safle arbenigol dynodedig ar gyfer OBPs troseddau rhywiol. trefniadau trosglwyddo er mwyn datblygu mynediad unrhyw unigolyn ar OBPs. Mae CEF/STI Parc yn agos i CEF Brynbuga, ei safle arbenigol dynodedig ar gyfer OBPs troseddau rhywiol.